

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 17 Mehefin 2021

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Féch gwahodd i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 23 MEHEFIN 2021 am 9.30 am yn TRWY CYFRWNG FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDRIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 PENODI CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

4 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

5 MATERION BRYNS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 9 - 18)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2020 (copi ynghlwm).

7 ADOLYGIAD O BOLISI AC AMODAU TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT (Tudalennau 19 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn ceisio adolygiad o'r Polisi Trwyddedu cyfredol yn ymwneud â Cherbydau Hacni (Tacs) a Cherbydau Hurio Preifat, Gyrwyr a Gweithredwyr a chymeradwyaeth ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar ddatganiad drafft o Bolisi Trwyddedu.

8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GERBYDAU DI ALLYRIADAU GYDA'R FFLYD O GERBYDAU TRWYDDEDIG (Tudalennau 93 - 94)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn diweddu aelodau ar y sefyllfa gyfredol yn ymwneud â Chynllun Peilot Tacsis Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer cerbydau di allyriadau.

9 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD (Tudalennau 95 - 124)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm), yn diweddu aelodau ar yr adolygiad o'r polisi masnachu ar y stryd a'r camau nesaf a argymhellir.

10 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cael diweddu ar lafar gan Reolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd.

RHAN 2 - MATER CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth drafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

11 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 551134 (Tudalennau 125 - 142)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 551134.

11.00 am

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Joan Butterfield
Hugh Irving
Brian Jones
Barry Mellor
Melvyn Mile
Merfyn Parry

Pete Prendergast
Arwel Roberts
Peter Scott
Rhys Thomas
Huw Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR TRWYDDEDU

GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL

| CAM | DISGRIFIAD |
|-----|---|
| 1. | Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol. |
| 2. | Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4. |
| 3. | Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisaiu ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad. |
| 4. | Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras |
| 5. | Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny. |
| 6. | Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion. |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.) |
| 8. | Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol |
| 9. | Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| 10. | Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol. DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfeithydd, cyngorydd cyfreithiol y pwylgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion. |

| | |
|-----|--|
| 11. | Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd. |
| 12. | Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd. |
| 13. | Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartion yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd. |
| 14. | Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded. |
| 15. | Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn). |
| 16. | Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan: <ol style="list-style-type: none"> 1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. 2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded. |
| 17. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl. |
| 18. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor. |

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchenog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Eitem Agenda 6

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Mercher, 4 Mawrth 2020 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Hugh Irving (Cadeirydd), Alan James, Brian Jones (Is-gadeirydd), Melvyn Mile, Merfyn Parry a Peter Scott

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig a Gwarchod Y Cyhoedd (GR), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (JT), Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (KB), Arweinydd Tîm Pobl – Gwasanaethau Cyfreithiol (NG), Swyddog Cyfreithiol Contractau a Chaffael (SR) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Barry Mellor, Arwel Roberts, Rhys Thomas a Huw Williams

2 DATGAN CYSYLTIAD

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad eu mynegi.

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafodd unrhyw faterion brys eu codi.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019.

Materion yn Codi -

Tudalen 10: Eitem 5 Newidiadau Arfaethedig i Ffioedd a Thaliadau Trwyddedu Tacsi - ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn dilyn yr ymgynghoriad angenrheidiol ac felly byddai'r ffioedd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020.

Tudalennau 13 a 14, Eitem 8 Polisi Casgliadau Tŷ i Dŷ Arfaethedig ac Eitem 9 Polisi Casgliadau Stryd Arfaethedig - ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol ar y polisiau arfaethedig a byddai'r ddau yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019 fel cofnod cywir.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol ar sail y bydd yn cynnwys datgelu gwybodaeth wedi'i wahardd fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.

5 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 541292

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad (wedi'i ddosbarthu'n flaenorol) yn dilyn -

- (i) cais i adnewyddu a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 541292 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) swyddogion wedi cyfeirio'r cais adnewyddu at y Pwyllgor Trwyddedu i'w benderfynu o ystyried amgylchiadau penodol yr achos;
- (iii) yr Ymgeisydd wedi croni 3 phwynt cosb ar ei Drwydded Yrru DLVA am oryrru ym mis Mai 2017 ac wedi cael cosb ariannol yn ymwneud â dwy drosedd am yrru cerbyd dros bwysau ym mis Rhagfyr 2019, y ddu wedi eu datgan gan yr Ymgeisydd a'u cadarnhau yn dilyn gwiriad arferol;
- (iv) gwybodaeth bellach ynghylch yr achos gan gynnwys esboniad yr Ymgeisydd o'r amgylchiadau yn ymwneud â'r euogfarnau ynghyd â'i addasrwydd fel gyrrwr trwyddedig a geirda cymeriad (ynghlwm i'r adroddiad);
- (v) polisi'r Cyngor o ran addasrwydd ymgeiswyr a'r rhesymeg y tu ôl i argymhelliaid y swyddog i wyro oddi wrth y polisi hwnnw a chaniatáu'r cais adnewyddu o ystyried yr amgylchiadau eithriadol yn yr achos hwn, ac;
- (vi) estyn gwahoddiad i'r Ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais i adnewyddu ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yng nghwmni ei fab a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor a'i fod yn hapus i symud ymlaen.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos.

Dyweddodd yr Ymgeisydd ei fod yn yrrwr tacsi hirsefydlog a phrofiadol heb unrhyw bryderon blaenorol a rhoddodd sicrwydd ynghylch ei ymddygiad gyrru. Esboniodd hefyd yr amgylchiadau o amgylch yr euogfarn goryrru a oedd i gael ei dynnu oddi ar ei drwydded cyn bo hir a chadarnhaodd nad oedd yn cario teithwyr ar y pryd. O ran yr ail drosedd, eglurodd ei fab mai ei fai oedd am iddo gamgyfrifo'r terfyn pwysau gan arwain at ei dad yn ddiarwybod yn gyrru cerbyd dros ei bwysau. Rhoddwyd sicrwydd na wnaed unrhyw beth yn fwriadol yn hynny o beth a bod camau wedi'u cymryd ers hynny i sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto yn y dyfodol. Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, crynhodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd y rhesymeg y tu ôl i argymhelliaid y swyddog i ganiatáu'r cais adnewyddu

o ystyried yr amgylchiadau penodol yn yr achos hwn. Yn ei ddatganiad olaf mynegodd yr Ymgeisydd ei edifeirwch dros y troseddau ac ailadroddodd na chawsant eu cyflawni'n fwriadol.

Oedwyd y cyfarfod er mwyn ystyried y cais a -

PHENDERFYNWYD cymeradwyo cais Ymgeisydd Rhif 541292 i adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat.

Dyma resymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu -

Ystyriodd yr aelodau'r cais a'r cyflwyniadau yn yr achos yn ofalus. Derbyniwyd bod yr Ymgeisydd yn yrrwr trwyddedig profiadol gyda record flaenorol lân ac wedi bod yn agored ac yn onest wrth ddatgan ei droseddau moduro. Roedd y cyfeiriadau niferus sy'n tystio i gymeriad da'r Ymgeisydd hefyd wedi'u hystyried. Roedd yr aelodau wedi canfod bod yr Ymgeisydd yn gredadwy ac yn ddilys yn ei anerchiad i'r Pwyllgor ac wedi derbyn yr esboniad a roddwyd ynghylch amgylchiadau'r troseddau a'r edifeirwch a ddangoswyd. O ystyried yr amgylchiadau eithriadol hynny, roedd yr aelodau'n fodlon bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. O ganlyniad, penderfynwyd gwyro oddi wrth bolisi cyfredol y Cyngor mewn perthynas â throseddau defnyddio cerbydau ar yr achlysur hwn a chaniatáu'r cais adnewyddu. Yng ngoleuni'r euogfarnau a gafwyd, ystyriwyd ei bod yn briodol rhybuddio'r Ymgeisydd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Fe wnaeth y Cadeirydd gyfleu'r penderfyniad a'r rhesymau felly i'r Ymgeisydd a'i rybuddio i fod yn ymwybodol o'r rheolau a'r rheoliadau ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

6 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 543310

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad (wedi'i ddosbarthu'n flaenorol) yn dilyn -

- (i) cais i adnewyddu a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 543310 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) roedd swyddogion wedi cyfeirio'r cais adnewyddu at y Pwyllgor Trwyddedu i'w benderfynu o ystyried amgylchiadau penodol yr achos;
- (iii) yr Ymgeisydd wedi croni 6 phwynt cosb ar ei Drwydded Yrru DVLA ym mis Awst 2019 am ddefnyddio ffôn symudol neu ddyfais llaw wrth yrru cerbyd modur a oedd wedi'i ddatgan gan yr Ymgeisydd a'i gadarnhau yn dilyn gwiriad arferol fel rhan o'r cais adnewyddu;
- (iv) gwybodaeth bellach ynghylch yr achos gan gynnwys esboniad yr Ymgeisydd o'r amgylchiadau yn ymwneud â'r euogfarnau gyrru ynghyd â'i addasrwydd fel gyrrwr trwyddedig;

- (v) polisi'r Cyngor o ran addasrwydd ymgeiswyr a'r rhesymeg y tu ôl i argymhelliaid y swyddog i wyro oddi wrth y polisi hwnnw a chaniatáu'r cais adnewyddu o ystyried yr amgylchiadau eithriadol yn yr achos hwn, a;
- (vi) estyn gwahoddiad i'r Ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais i adnewyddu ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Nid oedd yr ymgeisydd yn bresennol ac nid oedd wedi dynodi a oedd yn bwriadu bod yn bresennol ai peidio. Cadarnhaodd swyddogion fod y papurau perthnasol a hysbysiad o'r gwrundaiad wedi cael eu cyflwyno. Ystyriodd y Pwyllgor bod digon o wybodaeth wedi ei ddarparu er mwyn iddynt benderfynu ar y cais a chytunwyd mynd ymlaen â'r achos yn absenoldeb yr Ymgeisydd.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodaeth yr adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos. Ymatebodd i gwestiynau aelodau ac ymhelaethodd ymhellach ar y manylion yn ymwneud â'r drosedd a chadarnhaodd fod cyfrif yr Ymgeisydd wedi'i gadarnhau gan yr Heddlu. Tynnwyd sylw'r aelodau at adrannau perthnasol polisi'r Cyngor mewn perthynas â defnyddio ffôn symudol wrth yrru ac amgylchiadau unigryw'r achos ynghyd ag ystyried cymeriad cyffredinol yr Ymgeisydd a arweiniodd at argymhelliaid y swyddog i ganiatáu'r adnewyddu'r cais.

Oedwyd y cyfarfod er mwyn ystyried y cais a -

PHENDERFYNWYD cymeradwyo cais Ymgeisydd Rhif 543310 i adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan roi rhybudd ffurfiol iddo ynghylch ei ymddygiad.

Dyma resymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu -

Roedd yr aelodau wedi ystyried amgylchiadau penodol yr achos yn ofalus fel y nodir yn yr adroddiad ynghyd ag ymateb swyddogion i gwestiynau arno. Nododd yr aelodau record lân yr Ymgeisydd yn flaenorol a'i gymeriad da fel gyrrwr trwyddedig a'i onestrwydd wrth ddatgan yr euogfarn ar yr adeg briodol. Derbyniodd yr aelodau hefyd gyfrif yr Ymgeisydd o'r digwyddiadau a gadarnhawyd gan yr Heddlu a chanfuwyd ei fod, ar adeg y drosedd, wedi bod yn mynd trwy amgylchiadau unigryw heb unrhyw fai arno'i hun. O ganlyniad, canfu'r aelodau fod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded ac o ystyried yr amgylchiadau eithriadol yn yr achos hwn cytunwyd i wyro oddi wrth bolisi'r Cyngor o ran defnyddio ffôn symudol wrth yrru a chaniatáu'r cais adnewyddu. Roedd yr aelodau hefyd o'r farn ei bod yn briodol cyhoeddi rhybudd ffurfiol ynghylch y drosedd ac ymddygiad yn y dyfodol. Er yr ystyriwyd bod digon o wybodaeth wedi'i darparu i alluogi penderfyniad i gael ei wneud y tro hwn, gofynnodd y Pwyllgor i'w siom gael ei chyfleu'n uniongyrchol i'r Ymgeisydd ynghylch ei ddifyg presenoldeb yn y gwrundaiad o'i gais.

Ar y pwynt hwn (10.25am) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cynnig nifer o welliannau i'r Polisi ac Amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i'w ymgynghori a'u cymeradwyo'n ffurfiol yn dilyn ei adolygiad tair blynedd.

Ym mis Rhagfyr 2016 cymeradwyodd y Pwyllgor Trwyddedu Bolisi ac Amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat o fis Gorffennaf 2017 ymlaen. Ar ôl adolygu'r polisi yn unol â gofynion, cynigiwyd nifer o welliannau i adlewyrchu'r ddau newid yn y gweithdrefnau gweithredu (h.y. cael gwared ar y system pwyntiau cosb) ac i egluro'r amodau presennol. Argymhellwyd y dylid ymgynghori'n ffurfiol ag unrhyw newidiadau cyn eu gweithredu.

Ymhelaethodd swyddogion ar y meysydd arfaethedig i'w diwygio fel a ganlyn -

- Arwyddion / Hysbysebu / Lifrai (Hurio Preifat) - rhoi'r gorau i ddefnyddio arwyddion drws magnetig
- Eithriad Plât - dirprwyo i swyddogion i ddelio â cheisiadau eithrio
- Camau Disgyblu - diwygio a disodli cyfeiriadau at gynllun pwyntiau cosb
- Cynllun Pwyntiau Cosb - diwygio a dileu cyfeiriadau at gynllun pwyntiau cosb
- Cyfleusterau ar gyfer Defnyddwyr Cadair Olwyn - tynnu "wrth ddrws cefn yr ochr agosaf"
- Gwrthdrawiadau - diwygiad i sicrhau bod gweithdrefn ar waith ar gyfer cerbydau crog
- Arwyddion / Hysbysebu / Lifrai (Cerbyd Hacni) - cael gwared ar y gofyniad am arwydd to neu fesurydd ar gyfer archwiliad / prawf cychwynnol ar gerbydau.

Trafodwyd y materion canlynol ymhellach -

- Camau Disgyblu - cadarnhawyd, o ran dirprwyaethau swyddogion, bod y weithdrefn ar gyfer ataliadau a dirymiadau yn nodi bod penderfyniadau i'w cymryd mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ynghyd â swyddogion cyfreithiol perthnasol.
- Cyfleusterau ar gyfer Defnyddwyr Cadair Olwyn - eglurwyd bod llawer o gerbydau newydd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn caniatáu ar gyfer gwahanol bwyntiau mynediad a byddai dileu'r cyfyngiad mynediad cyfredol yn caniatáu mynediad o'r cefn ac yn darparu ar gyfer y cerbydau hynny.
Nodwyd y gallai problemau gael eu hachosi ar ranciau tacsi oherwydd lle i ddarparu ar gyfer mynediad o'r cefn a bod llawer o gerbydau o'r fath sy'n arddangos arwyddion sy'n gofyn am bellter digonol yn cael eu cadw'n glir at y diben hwnnw.
- Gwrthdrawiadau - Roedd y Cyngorydd Joan Butterfield yn awyddus i sicrhau bod costau a achosir gan berchnogion cerbydau yn cael eu cadw mor isel â phosibl a gofynnodd am welliant pellach i nodi, mewn achosion lle roedd angen prawf cydymffurfio yn dilyn gwrthdrawiad, y gellir defnyddio'r prawf cydymffurfio fel un o'r profion cydymffurfio rheolaidd gofynnol.
Er mwyn cydymffurfio â'r cais hwnnw, cytunodd swyddogion i newid yr adran berthnasol i ddarllen fel a ganlyn "Os bydd trwydded yn cael ei hatal oherwydd natur y difrod, bydd y perchennog, ar ei gost ei hun, yn cael y cerbyd wedi'i brofi **o dan ofynion prawf cydymffurfio** yng Nghanolfan Rheoli Fflyd a Chynnal a Chadw Cerbydau CSDd. Yn dilyn hynny, dylent gyflwyno'r Dystysgrif

Cydymffurfiaeth i'w harchwilio gan swyddog awdurdodedig cyn adfer y drwydded. **Os yw'n berthnasol, gall y perchennoedd ddewis defnyddio'r prawf cydymffurfio hwn fel un o'r profion cydymffurfio blynnyddol sy'n ofynnol o dan adran 2.5 / 5.5. Dylai perchnogion nodi y bydd hyn yn cyflwyno dyddiad dyledus newydd ar gyfer y prawf cydymffurfio bob 6 mis nesaf**. Holodd y Cynghorydd Brian Jones a oedd yn briodol ei gwneud yn ofynnol i bob cerbyd gael ei brofi yn y Ganolfan Rheoli Fflyd ym Modelwyddan, yn enwedig o ystyried y pellter i berchnogion Llangollen. Esboniodd swyddogion mai'r rhesymeg y tu ôl i'r gofyniad oedd sicrhau bod y cerbydau hynny sy'n cael difrod sylweddol ac atgyweiriad dilynol yn cael eu profi'n briodol i safon gyson mewn canolfan ddiduedd. Nodwyd bod y Pwyllgor Trwyddedu wedi cytuno o'r blaen i ystyried symud i brofion cydymffurfio mewnol yn unig ac ar hyn o bryd roedd swyddogion yn adolygu'r cynnig hwnnw a fyddai'n cael ei ddwym yn ôl i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol i'w ystyried ymhellach.

- Arwyddion/Hysbysebu/Lifrai (Cerbyd Hacni) - nododd aelodau y gallai perchnogion fynd i gostau ychwanegol o ystyried y gofyniad cyfredol ac i ddarparu ar gyfer tacsis pwrrpasol a cherbydau eraill, a chytunwyd i'r diwygiad canlynol "**Gellir cyflwyno Cerbydau sy'n Newydd i'r Fflyd i Ganolfan Rheoli Fflyd a Chynnal a Chadw Cerbydau CSDd i gael archwiliad cychwynnol heb arwydd to neu fesurydd.**"

PENDERFYNWYD –

- (a) Awdurdodi swyddogion i ymgynghori ynghylch y diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat a'r Amodau, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor, ac os na dderbynir unrhyw wrthwynebiad, byddant yn dod i rym 1 Mehefin 2020,
- (b) Os derbynir unrhyw wrthwynebiad, bydd y Pwyllgor Trwyddedu yn ystyried y gwrthwynebiadau hynny yn ystod y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2020 gyda'r bwriad o weithredu (gyda neu heb addasiad) dim hwyrach nag 1 Gorffennaf 2020.

8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR WAITH YR ADAIN DRWYDDEDU YN 2019

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn diweddaru aelodau ar waith yr Adran Drwyddedu yn ystod 2019 a oedd yn canolbwytio ar faterion gweithredol a rheoli.

Roedd yr adroddiad yn darparu data ystadegol ynghylch nifer y trwyddedau a roddwyd, cwynion a cheisiadau gwasanaeth a dderbyniwyd yn ymwneud â'r prif swyddogaethau - Alcohol ac Adloniant; Trwyddedu Hacni a Hurio Preifat; Gamblu, Hapchwarae a Loteriau; Masnachu ar y Stryd; Casgliadau Elusennau a Metel Sgrap ynghyd â materion ategol eraill gan gynnwys canlyniadau llwyth gwaith cyffredinol a chyfathrebu. Roedd materion rheoli yn cynnwys cyfeirio at bolisiau, ffioedd, cwynion yn erbyn y gwasanaeth ynghyd ag ystyriaethau llwyth gwaith yn y dyfodol. Ymhelaethodd swyddogion ar wahanol agweddau ar yr adroddiad ac egluro materion penodol mewn ymateb i gwestiynau aelodau.

Canolbwytiodd y prif feysydd trafod ar swyddogaethau a materion rheoli ar -

- **Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat** - roedd dau gais gyrrwr a wrthodwyd gan swyddogion wedi bod yn llwyddiannus ar apêl i'r Llys Ynadon ar ôl cyflwyno tystiolaeth bellach na chyflwynwyd adeg y cais.
Trafododd yr aelodau gyda swyddogion gost amddiffyn apêl ac a fyddai rhinwedd mewn cyflwyno mechanwaith ar gyfer ceisiadau penodol i yr wyr (yr oedd swyddogion yn ystyried y byddai'n haeddu achosion gwrthod neu ffiniol lle y gellid dadlau'n gadarn dros ganiatáu a gwrthod ac y gallent gyfiawnhau gwyriad o'r polisi) i'w ddwyn gerbron y Pwyllgor Trwyddedu i'w benderfynu. Byddai proses o'r fath yn rhoi cyfle pellach i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth bellach i gefnogi ei gais mewn modd amserol a thrwy hynny'n helpu i osgoi costau llys posibl i'r holl bartion dan sylw. Cadarnhaodd yr aelodau fod ganddynt hyder yn y broses o ddirprwyo pwerau a roddir i swyddogion at y diben hwnnw ond cytunwyd y byddai teilyngdod i unrhyw geisiadau nad oeddent yn amlwg ac yn achosi dadl i swyddogion gael eu dwyn yn ôl gerbron y Pwyllgor Trwyddedu i'w penderfynu. Nodwyd bod yr opsiwn o ddod â materion yn ôl gerbron aelodau yn gynhenid mewn unrhyw ddirprwyaeth i swyddogion ac felly nid oedd angen mechanwaith penodol at y diben hwnnw o fewn y polisi.
- **Casgliadau Elusennol** - cadarnhawyd bod nifer y casgliadau elusennol a nodwyd yn yr adroddiad yn cynnwys crynhoad o'r un elusen yn casglu mewn gwahanol ardaloedd o'r sir, a bod angen trwyddedu casgliadau elusennol o ddillad o dŷ i dŷ gyda'r mwyafrif o elusennau mawr yn cael Gorchymyn Eithrio gan y Swyddfa Gartref at y diben hwnnw.
- **Metel Sgrap** - darparwyd manylion y rheoliadau ar waith sy'n ymwneud â safleoedd a chasglwyr metel sgrap a chadarnhawyd bod angen trwyddedu unrhyw gasgliad o fetel sgrap; sganwyd gwefannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook yn rheolaidd ar gyfer hysbysebion yn ymwneud â metel sgrap er mwyn sicrhau cydymffurfiad.
- **Cyfathrebu** - nodwyd bod cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i bostio negeseuon a chytunodd swyddogion i gylchredeg dolenni ar gyfer Facebook a Twitter i'r tudalennau Safonau Trwyddedu a Masnachu er gwybodaeth a diddordeb i'r aelodau.
- **Ffioedd** - mewn ymateb i gwestiynau atgoffwyd aelodau bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau trwyddedu tacsi yn eu cyfarfod diwethaf ym mis Rhagfyr 2019 ac o gofio na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori byddent yn effeithiol o 1 Ebrill 2020. Eglurwyd bod swyddogion yn cynnal adolygiad blynnyddol o'r holl ffioedd a thaliadau a ddygwyd gerbron y Pwyllgor Trwyddedu i'w cymeradwyo cyn ymgynghori a chymeradwyo'n ffurfiol yr agweddu gweithredol gan y Pennaeth Gwasanaeth. Gosodwyd y ffioedd yn seiliedig ar y costau gwirioneddol yr aethpwyd iddynt ac ni ellid gwneud elw.

Wrth ystyried llwyth gwaith yn y dyfodol, bu trafodaeth bellach ar y materion a ganlyn -

- ar ôl cyflwyno isafswm pris ar gyfer alcohol yn effeithiol o 2 Mawrth 2020, byddai swyddogion yn cynnal archwiliadau yn ystod y misoedd nesaf i sicrhau cydymffurfiad.

- Byddai arolygiadau yn cael eu cynnal yn y chwarter cyntaf ac felly byddai'n bosibl adrodd yn ôl ar lefel y cydymffurfiad i aelodau ym mis Mehefin
- ymhelaethodd swyddogion ar y fenter "Braf Bob Nos" i gyflwyno eiddo trwyddedig yn Sir Ddinbych er mwyn hyrwyddo moeseg tafarn dda a safonau gofynnol - y ffocws yn 2020 fyddai codi ymwybyddiaeth o'r cynllun cyn ei lansio'n ffurfiol ym mis Mawrth 2021
 - cyfeiriwyd at nod Llywodraeth Cymru o fflyd byssus a thacsis/cerbydau hurio preifat sero allyriadau erbyn 2028 a bu peth trafodaeth am y rôl bosibl y gallai trwyddedu ei chwarae yn y weledigaeth honno trwy brosesau ar gyfer trwyddedu tacsis a chymhellion posibl i annog trwyddedigion yn lleol yn hynny o beth.
- Cydnabuwyd rôl a gwaith y Grŵp Newid Hinsawdd yn y cyd-destun amgylcheddol ehangach ac awgrymwyd y potensial i Weithgor Trwyddedu penodol ganolbwytio ar helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru fel ffordd bosibl ymlaen. Amlygwyd hefyd yr angen i sicrhau na fyddai gwasanaethau mewn ardaloedd mwy gwledig yn cael eu peryglu nac yn cael eu heffeithio'n niweidiol o ganlyniad i unrhyw gynigion yn y dyfodol. Cytunwyd bod swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gydag opsiynau ar y ffordd ymlaen unwaith y byddai gwybodaeth bellach ar gael.
- nodwyd y byddai sesiwn hyfforddi yn cael ei chynnal ym mis Medi ac er y byddai blaenoriaeth i aelodau'r Pwyllgor, byddai aelodau eraill hefyd yn gallu mynuchu. Anogwyd aelodau i roi gwybod i swyddogion am unrhyw feysydd penodol yr oeddent yn eu hystyried yn fuddiol i ddiwallu eu hanghenion hyfforddi. Roedd swyddogion hefyd yn barod i dderbyn ceisiadau gan aelodau sydd â diddordeb mewn cysgodi swyddogion ar eu dyletswyddau gyda threfniant ymlaen llaw.
 - rhoddwyd sicrwydd y byddai swyddogion yn archwilio ffrydiau cyllid grant a allai fod ar gael.

Talodd y Cadeirydd deyrnged i waith y Tîm Trwyddedu, yn enwedig o ystyried y llwyth gwaith trwm dan sylw, a gafodd ei gydnabod a'i werthfawrogi gan y Pwyllgor. Gofynnodd yr aelodau i'w diolch gael ei gyfleo i'r Tîm Trwyddedu a chofnodi eu gwerthfawrogiad o fewn y cofnodion. Diolchodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd i'r aelodau am eu cefnogaeth a chytunodd i fwydo'r sylwadau hynny yn ôl i'r Tîm Trwyddedu.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar sylwadau aelodau, nodi cynnwys yr adroddiad.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2020/21.

Wrth ystyried y rhaglen waith cyfeiriwyd at yr adolygiad blynnyddol o Ffioedd a Thaliadau ac eglurodd swyddogion fod rhai ffioedd yn statudol tra bod eraill yn ddewisol. Ni ellid gwneud elw o'r ffioedd dewisol hynny y mae'n rhaid iddynt dalu'r costau yr eir iddynt am weinyddu'r swyddogaeth benodol honno yn unig. O ran ffioedd trwyddedu cerbydau hacni / hurio preifat, dyfeisiwyd methodoleg fanwl i ganiatâu ar gyfer adolygiad manwl o'r ffioedd a'r taliadau hynny yn unol â'r prosesau trwyddedu perthnasol a chytunwyd i gynnwys y wybodaeth honno fel rhan o'r adolygiad blynnyddol nesaf a ddaeth gerbron y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2020.

Nododd yr aelodau hefyd y sesiwn hyfforddi trwyddedu a gynlluniwyd ym mis Medi a gofynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield am drosolwg o'r mathau o gwynion a dderbynir gan y gwasanaeth ynghyd â'r broses gwynion a ddilynir yn hynny o beth i fod ar gael fel rhan o'r sesiwn hyfforddi honno.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn atodiad i'r adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---------------------------|---|
| ADRODDIAD I'R: | Pwyllgor Trwyddedu |
| DYDDIAD: | 23 Mehefin 2021 |
| SWYDDOG ARWEINIOL: | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| SWYDDOG CYSWLLT: | Yr Uwch Swyddog Trwyddedu trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433 |
| TESTUN: | Adolygu Polisi ac Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 I'r Aelodau gael ystyried adolygu'r Polisi ac Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat er mwyn ymgorffori'r safonau statudol newydd a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth, ynghyd ag argymhellion newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Ceisio barn yr Aelodau am safonau statudol yr Adran Drafnidiaeth a'r argymhellion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 2.2 Ceisio cymeradwyaeth hefyd i ymgynghori â'r diwydiant a'r cyhoedd yn ehangach ar Ddatganiad drafft o'r Polisi Trwyddedu er mwyn ymgorffori safonau statudol yr Adran Drafnidiaeth ac argymhellion newydd Llywodraeth Cymru.

3. GWYBODAETH GEFNDIR

- 3.1 Mae Polisi ac Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat presennol Sir Ddinbych wedi'i sefydlu ers 2017. Gyda'r Adran Drafnidiaeth yn cyhoeddi safonau statudol newydd a Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi argymhellion newydd, cynigir bod angen i ni adolygu'r polisi presennol er mwyn ymgorffori'r safonau a'r argymhellion newydd hyn.
- 3.2 Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth Safonau Statudol ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat, gan ganolbwytio ar amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn nodi ei bod yn amlwg, yn dilyn ymgynghoriad manwl, bod yna gonsensws

bod angen safonau sylfaenol craidd cyffredin i reoleiddio'r sector tacsis a cherbydau hurio preifat yn well. Trowch at Atodiad A.

3.3 Mae Safonau'r Adran Drafnidiaeth yn cael effaith yng Nghymru er i'r cyfrifoldeb am bolisi tacsis a cherbydau hurio preifat gael ei ddatganoli i Gynulliad Cymru. Fodd bynnag, pe byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno deddfwriaeth i reoleiddio ar y materion hyn, ni fyddai safonau'r Adran Drafnidiaeth yn berthnasol mwyach.

3.4 Mae Safonau Statudol yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yn nodi:

"1.3 Er bod y Safonau Statudol ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yn canolbwytio ar amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn, bydd pob teithiwr yn elwa o'r argymhellion sydd ynddynt. Mae yna gonsensws bod angen safonau sylfaenol craidd cyffredin i reoleiddio'r sector tacsis a cherbydau hurio preifat yn well, ac mae'r argymhellion yn y ddogfen hon yn ganlyniad trafodaethau manwl gyda'r diwydiant, y rheoleiddwyr a grwpiau ymgyrchu diogelwch. Felly mae'r Adran yn disgwyl i'r argymhellion hyn gael eu gweithredu oni bai bod rheswm lleol cymhellol i beidio â gwneud hynny."

1.4 Dylid nodi, gan nad yw plismona a chyfiawnder troseddol yn fater datganoledig, y bydd y Safonau Statudol ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Plismona a Throseedd 2017 yn parhau i gael effaith yng Nghymru, er i'r cyfrifoldeb am bolisi tacsis a cherbydau hurio preifat gael ei ddatganoli i Gynulliad Cymru ym mis Ebrill 2018. Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i reoleiddio ar y materion hyn, ni fyddai'r safonau yn y ddogfen hon yn berthnasol mwyach.

3.5 Dylai Awdurdodau Trwyddedu adolygu eu polisiau trwyddedu bob pum mlynedd, ond dylent hefyd ystyried adolygiadau dros dro pe bai materion sylweddol yn codi yn eu hardal, a'u perfformiad yn flynyddol."

3.5 Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen Cysoni Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn dilyn papur gwyn Llywodraeth Cymru, 'Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus', a gyhoeddwyd yn 2018. Nod yr argymhellion sydd yn y ddogfen hon yw darparu 'atebion sydyn' i wella cysondeb safonau trwyddedu a chynyddu diogelwch y cyhoedd ledled Cymru.

Mae'r argymhellion yn llunio sail datblygiad pellach gan Lywodraeth Cymru i safonau cenedlaethol. Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru yn argymhellion yn gryf bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn mabwysiadu'r argymhellion hyn yn wirfoddol (os nad ydynt eisoes wedi'u sefydlu). Trowch at Atodiad B.

- 3.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu 5 rheswm dros fabwysiadu'r argymhellion, a diogelwch y cyhoedd yw'r cyntaf. Dylai'r cyhoedd allu disgwyl i yrrwr trwyddedig fod yn gymwys, yn onest, yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Cafwyd nifer o adroddiadau yn y blynnyddoedd diweddar yn sôn am gamfanteisio ar blant, a ddangosodd yn glir bod trefniadau gwan ac aneffeithiol ar gyfer trwyddedu yng Nghymru a Lloegr yn rhoi'r cyhoedd mewn perygl. Y gobaith yw y bydd yr argymhellion newydd yn cywiro hyn drwy wella diogelwch y cyhoedd ledled Cymru. Mae hyn hefyd yn cynnwys diogelwch cerbydau, ynghyd â gwella'r safonau a osodwyd ar gyfer gweithredwyr cerbydau hurio preifat.
- 3.7 Mae rhesymau eraill dros fabwysiadu'r argymhellion yn cynnwys gwell cysondeb o ran safonau ledled Cymru, cysondeb o ran gorfodi, cerbydau mwy hygrych yng Nghymru a gwell safonau o wasanaeth i gwsmeriaid.

3.8 **Newidiadau arfaethedig i Bolisi ac Amodau Trwyddedu**

- 3.8.1 Rhoddwyd ystyriaeth i Safonau Statudol yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat wrth ddrafftio argymhellion Llywodraeth Cymru.
- 3.8.2 Cynigir bod y Polisi ac Amodau Trwyddedu presennol yn dod yn un ddogfen fawr sy'n cynnwys yr holl bolisiau ac amodau atodol eraill sy'n ymwneud â thrwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat. Y gobaith yw y bydd hyn yn symleiddio pethau ar gyfer ymgeiswyr a dalwyr trwydded, gan y bydd yr holl ddogfennau angenrheidiol ar gael mewn un lle.
- 3.8.3 Bydd safonau statudol yr Adran Drafnidiaeth ac argymhellion Cysoni Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat Llywodraeth Cymru yn arwain at nifer o newidiadau i'n Polisi Trwyddedu presennol. I grynhoi, dyma'r prif newidiadau:

3.8.4 Gyrwyr

- Y gofyn i yrwyr ymuno â Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chael gwiriad DBS bob 6 mis.
- Gwiriad cofnodion troseddol tramor ar gyfer gyrwyr.
- Mabwysiadu Cod Ymddygiad Gyrwyr Llywodraeth Cymru.
- Diweddarau Amodau Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat yn unol ag

Argymhellion Llywodraeth Cymru.

3 .8.5 Cerbyd

- Y gofyn i berchenogion cerbydau gael gwiriad DBS blynnyddol.
- Gwiriad cofnodion troseddol tramor.
- Mabwysiadu polisi Llywodraeth Cymru ar TCC a Systemau Fideo Pwynt Taro (VIPS)/ Camerâu Dangosfrwrdd mewn tacsis a cherbydau hurio preifat.
- Gosod argymhellion Llywodraeth Cymru ar gyfer amodau hygyrchedd ar berchnogion tacsis a cherbydau hurio preifat.

3.8.6 Cyffredinol

- Ymrwymo i adolygu'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu bob 5 mlynedd yn unol â Safonau Statudol yr Adran Drafnidiaeth.

4.0 YMGYNGHORI

- 4.1 Cynigir cynnal ymgynghoriad am 4 wythnos ar Ddatganiad drafft o'r Polisi Trwyddedu, sy'n ymgorffori'r Safonau Statudol newydd a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth a'r argymhellion a nodir gan Lywodraeth Cymru.
- 4.2 Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried a bydd y polisi terfynol, ynghyd ag unrhyw sylwadau a geir, yn cael ei gyflwyno ger bron y Pwyllgor Trwyddedu i'w gymeradwyo.

5.0 ARGYMHELLION

- 5.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn penderfynu:
- Cymeradwyo'r adolygiad o'i Bolisi Trwyddedu presennol mewn perthynas â Cherbydau Hacni (Tacsis) a Cherbydau Hurio Preifat, eu Gyrwyr a'u Gweithredwyr, yn unol â Safonau Statudol newydd yr Adran Drafnidiaeth ac Argymhellion Cysoni Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat Llywodraeth Cymru.
 - Cymeradwyo'r angen i ymgynghori â'r diwydiant a'r cyhoedd yn ehangach (gan gynnwys sefydliadau lleol perthnasol, er enghraifft grwpiau hygyrchedd) ar Ddatganiad drafft o Bolisi Trwyddedu.



Department
for Transport

Statutory Taxi & Private Hire Vehicle Standards

Tudalen 23

July 2020

Contents

| | Page |
|--|------|
| 1. Introduction..... | 4 |
| 2. Consideration of the Statutory Taxi and Private Hire Vehicle Standards..... | 6 |
| 3. Administering the Licensing Regime..... | 8 |
| Licensing policies | 8 |
| Duration of licences | 9 |
| Whistleblowing..... | 9 |
| Consultation at the local level..... | 10 |
| Changing licensing policy and requirements | 10 |
| 4. Gathering and Sharing Information..... | 12 |
| The Disclosure and Barring Service | 12 |
| The Disclosure and Barring Service Update Service | 13 |
| Common Law Police Disclosure | 13 |
| Licensee self-reporting | 13 |
| Referrals to the Disclosure and Barring Service and the Police | 14 |
| Working with the Police | 15 |
| Sharing licensing information with other licensing authorities..... | 15 |
| Multi-agency Safeguarding Hub (MASH)..... | 16 |
| Complaints against licensees | 17 |
| Overseas convictions | 17 |
| 5. Decision Making | 19 |
| Administration of the licensing framework | 19 |
| Training decision makers..... | 19 |
| The regulatory structure | 20 |
| Fit and proper test | 21 |
| Criminal convictions and rehabilitation | 21 |
| 6. Driver Licensing..... | 23 |
| Criminality checks for drivers..... | 23 |
| Safeguarding awareness | 23 |
| ‘County lines’ exploitation | 24 |
| Language proficiency | 25 |

| | |
|---|----|
| 7. Vehicle Licensing..... | 26 |
| Criminality checks for vehicle proprietors | 26 |
| In-vehicle visual and audio recording – CCTV..... | 27 |
| Stretched Limousines..... | 28 |
| 8. Private Hire Vehicle Operator Licensing..... | 29 |
| Criminality checks for private hire vehicle operators..... | 29 |
| Booking and dispatch staff..... | 30 |
| Record keeping | 31 |
| Use of passenger carrying vehicles (PCV) licensed drivers | 31 |
| 9. Enforcing the Licensing Regime | 33 |
| Joint authorisation of enforcement officers | 33 |
| Setting expectations and monitoring..... | 33 |
| Suspension and revocation of driver licences..... | 33 |
| Annex – Assessment of Previous Convictions | 35 |
| Annex – Disclosure and Barring Service information | 37 |
| Annex – CCTV Guidance..... | 38 |
| Annex - Staying Safe: Guidance for Passengers | 40 |

1. Introduction

- 1.1 There is evidence to support the view that taxis and private hire vehicles are a high-risk environment. In terms of risks to passengers, this can be seen in abuse and exploitation of children and vulnerable adults facilitated and in some cases perpetrated by the trade and the number of sexual crimes reported which involve taxi and private hire vehicle drivers. Links between the trade and child sexual abuse and exploitation have been established in many areas and other investigations continue. Data on reported sexual assaults by taxi and private hire vehicle drivers evidence the risk to passengers; data from [Greater Manchester](#) and [Merseyside](#) suggest that, if similar offence patterns are applied across England, 623 sexual assaults per year are reported. These figures do not however account for the under reporting of crime which is estimated to be as high as 83 percent in the [Crime Survey for England and Wales](#).
- 1.2 The Policing and Crime Act 2017 enables the Secretary of State for Transport to issue statutory guidance on exercising taxi and private hire vehicle licensing functions to protect children and vulnerable individuals who are over 18 from harm when using these services. For the purposes of this document, a child is defined as anyone who has not yet reached their 18th birthday; and the term “vulnerable individual” has the same meaning as the definition of a ‘vulnerable adult’ for the purpose of section 42 of the [Care Act 2014](#), which applies where a local authority has reasonable cause to suspect that an adult in its area (whether or not ordinarily resident there):
- (a) has needs for care and support (whether or not the authority is meeting any of those needs),
 - (b) is experiencing, or is at risk of, abuse or neglect, and
 - (c) as a result of those needs is unable to protect himself or herself against the abuse or neglect or the risk of it.
- 1.3 Whilst the focus of the Statutory Taxi and Private Hire Vehicle Standards is on protecting children and vulnerable adults, all passengers will benefit from the recommendations contained in it. There is consensus that common core minimum standards are required to regulate better the taxi and private hire vehicle sector, and the recommendations in this document are the result of detailed discussion with the trade, regulators and safety campaign groups. **The Department therefore expects these recommendations to be implemented unless there is a compelling local reason not to.**
- 1.4 It should be noted that as policing and criminal justice is not a devolved matter, the Statutory Taxi and Private Hire Vehicle Standards issued under the Policing and Crime Act 2017 will continue to have effect in Wales although responsibility for taxi and private hire vehicle policy was devolved to the Welsh Assembly in April 2018. Should the Welsh Government introduce legislation to regulate on these issues, the standards in this document would, cease to apply.

- 1.5 All local authorities and district councils that provide children's and other types of services, including licensing authorities, have a statutory duty to make arrangements to ensure that their functions and any services that they contract out to others are discharged having regard to the need to safeguard and promote the welfare of children. This means that licensing authorities should have in place arrangements that reflect the importance of safeguarding and promoting the welfare of children. This includes clear whistleblowing procedures, safe recruitment practices and clear policies for dealing with allegations against people who work with children, as set out in the [Working Together to Safeguard Children](#) statutory guidance.
- 1.6 The Statutory Taxi and Private Hire Vehicle Standards reflect the significant changes in the industry and lessons learned from experiences in local areas since the 2010 version of the Department's Best Practice Guidance. This includes extensive advice on checking the suitability of individuals and operators to be licensed; safeguarding children and vulnerable adults; the Immigration Act 2016 and Common Law Police Disclosure (which replaced the Notifiable Occupations Scheme).
- 1.7 The standards in this document replace relevant sections of the Best Practice Guidance issued by the Department in 2010, where there is a conflict between the Statutory Taxi and Private Hire Vehicle Standards and the Best Practice Guidance the Department issue on taxi and private hire vehicle licensing, the standards in this document take precedence.

Terminology

Taxis are referred to in legislation, regulation and common language as 'hackney carriages', 'black cabs' and 'cabs'. The term '**taxi**' is used throughout this document and refers to all such vehicles. Taxis can be hired immediately by hailing on the street or at a rank.

Private hire vehicles include a range of vehicles including minicabs, executive cars, chauffeur services, limousines and some school and day centre transport services. All private hire vehicle journeys must be pre-booked via a licensed private hire vehicle operator and are subject to a 'triple licensing lock' i.e. the operator fulfilling the booking must use vehicles and drivers licensed by the same authority as that which granted its licence. The term 'private hire vehicle' is used throughout this document to refer to all such vehicles.

2. Consideration of the Statutory Taxi and Private Hire Vehicle Standards

- 2.1 The past failings of licensing regimes must never be repeated. The Department has carefully considered the measures contained in the Statutory Taxi and Private Hire Vehicle Standards and recommend that these should be put in to practice and administered appropriately to mitigate the risk posed to the public. The purpose of setting standards is to protect children and vulnerable adults, and by extension the wider public, when using taxis and private hire vehicles.
- 2.2 The Government set out in the [Modern Crime Prevention Strategy](#) the evidence that where Government, law enforcement, businesses and the public work together on prevention, this can deliver significant and sustained cuts in certain crimes. That is good news for victims and communities and it makes clear economic sense too. Educating the public on the risks of using unlicensed drivers and vehicles, how to identify the licensed trade and appropriate measure to take when using these services will protect help all passengers, more information is annexed to this document (Annex - Staying safe: guidance for passengers).
- 2.3 The Strategy committed to protect children and young people from the risk of child sexual abuse and exploitation (CSAE), by working with local authorities to introduce rigorous taxi and private hire vehicle licensing regimes. Both the [Jay](#) and [Casey](#) reports on CSAE highlighted examples of taxi/private hire vehicle drivers being directly linked to children that were abused, including instances when children were picked up from schools, children's homes or from family homes and abused, or sexually exploited.
- 2.4 The Casey Report made clear that weak and ineffective arrangements for taxi and private hire vehicle licensing had left the children and public at risk. The Department for Transport has worked with the Home Office, Local Government Association (LGA), personal safety charities, trade unions and trade bodies,

holding workshops, forums, and sharing evidence and good practice with local authorities to assist in the setting of the standards.

- 2.5 This document is published by the Secretary of State for Transport under section 177(1) of the Policing and Crime Act 2017 following consultation in accordance with section 177(5).
- 2.6 The document sets out a framework of policies that, under section 177(4), licensing authorities “**must have regard**” to when exercising their functions. These functions include developing, implementing and reviewing their taxi and private hire vehicle licensing regimes. “Having regard” is more than having a cursory glance at a document before arriving at a preconceived conclusion.
Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, derbyniwyd y gallai atebion sydyn liniaru rhai o'r problemau presennol. Y bwriad yw y gallai'r argymhellion gael eu mabwysiadu gan awdurdodau lleol heb fod angen newid deddfwriaeth.

Datblygwyd yr argymhellion yn y canllaw hwn gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a chynrychiolwyr awdurdodau lleol drwy Fwrdd Diogelu'r Cyhoedd Cymru. Defnyddir y canllaw hwn fel canllawiau anstatudol.

Bwriedir i'r argymhellion a nodir yn Rhan II o'r canllaw hwn wneud y canlynol:

- gwella diogelwch y cyhoedd
- sicrhau mwy o gysondeb
- gwella profiad y cwsmer

hyd y gellir heb newidiadau i ddeddfwriaeth a heb gost afresymol i awdurdodau trwyddedu a'r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat.

Ni fydd yr argymhellion hyn ar eu pen eu hunain yn datrys yr holl heriau sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn drwyddedu bresennol, ond byddant yn sicrhau rhai gwelliannau. Byddant yn sail i waith datblygu pellach gan Lywodraeth Cymru i lunio safonau cenedlaethol.

Ystyriwyd 'Safonau Statudol Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat' yr Adran Drafnidiaeth wrth ddrafftio'r canllaw hwn a bydd mabwysiadu'r argymhellion yn Rhan II o'r canllaw hwn yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â nifer o'r argymhellion yn y Safonau. Bydd y safonau hyn yn gymwys i Gymru, nes i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

5. Rhesymau dros fabwysiadu'r argymhellion

a) Diogelwch y cyhoedd

Prif ddiben trwyddedu yw diogelu'r cyhoedd. Ei nod yw sicrhau bod gyrwyr, gweithredwyr a cherbydau yn ddiogel ac yn addas i gludo'r cyhoedd.

Gyrwyr

Defnyddir tacsis a cherbydau hurio preifat gan bob rhan o gymdeithas, gan gynnwys plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dylai aelodau o'r cyhoedd ledled Cymru ddisgwyl i yrrwr trwyddedig fod yn gymwys, yn onest, yn ddiogel ac yn ddibynadwy.

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ei Strategaeth Atal Troseddu Fodern. Fel rhan o'r Strategaeth, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw gyfleoedd i droseddwyr gam-drin plant yn rhywiol na chyflawni tra is yn erbyn menywod a merched, drwy weithio gydag ardaloedd lleol i gyflwyno cyfundrefnau trylwyr ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.

Tynnodd adroddiadau Jay a Casey ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn Rotherham sylw at enghreifftiau o yrwyr tacsi yn cael eu cysylltu â phlant a gafodd eu cam-drin, gan gynnwys achosion lle roedd plant yn cael eu casglu o ysgolion, cartrefi plant neu gartrefi teuluol ac yn cael eu cam-drin neu'n dioddef camfanteisio rhywiol yn gyfnewid am deithio am ddim mewn tacsis.

Nododd Adroddiad Casey yn glir fod trefniadau gwan ac aneffeithiol ar gyfer trwyddedu tacsis wedi rhoi'r cyhoedd mewn perygl. Mewn ymateb i'r adroddiadau ac er mwyn cyfrannu at Strategaeth Atal Troseddu Fodern y Swyddfa Gartref, yn ddiweddar cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth **safonau** statudol i awdurdodau lleol ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.

Nododd **Cynllun Gweithredu** Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol (Mehefin 2019), y gellid gwneud mwy ledled Cymru o ran sicrhau trefniadau cyson ar gyfer hyfforddiant diogelu i yrwyr tacsi.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Mae'n bwysig bod yr holl gamau y gellid eu cymryd er mwyn sicrhau bod gyrrwyr trwyddedig yn ddiogel ac yn addas yn cael eu hystyried. Mewn perthynas â thrwyddedu gyrrwyr, ystyrir y bydd mabwysiadu'r argymhellion canlynol yn gwella diogelwch y cyhoedd ledled Cymru:

- Gwiriadau manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a defnyddio Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gwirio ymgeiswyr sydd wedi byw dramor am fwy na 6 mis
- Archwiliadau meddygol safonedig
- Defnyddio cofrestr gwrthod/dirymu NR3
- Hyfforddiant diogelu
- Polisi addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded

Cerbydau

Er mwyn diogelu'r cyhoedd, mae awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i dacsis a cherbydau hurio preifat fodloni gwahanol ofynion trwyddedu, megis safonau profi cerbydau, cyfyngiadau oedran a manylebau cerbydau. Nod y gofynion hyn yw cadarnhau bod cerbydau yn addas ac yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio gan y cyhoedd.

Ledled Cymru, mae gofynion trwyddedu ychydig yn wahanol ac ystyrir y byddai ceisio cysoni'r polisiau a'r amodau hyn, cyn unrhyw newid deddfwriaethol, yn rhy ddrud ar yr adeg hon.

Ar hyn o bryd, y prif faes trwyddedu cerbydau y cytunwyd y dylid ei gysoni yw'r math o systemau teledu cylch cyfng (CCTV) a geir mewn cerbydau a'r defnydd a wneir ohonynt (camerâu sy'n wynebu tuag i mewn a thuag allan).

Mae systemau CCTV mewn cerbydau yn ddefnyddiol i atal troseddau ac ymchwilio iddynt. Gallant ddiogelu'r gyrrwr a theithwyr.

Mae gyrrwyr tacsi yn aml yn cludo teithwyr sydd wedi meddwi, a all eu rhoi mewn perygl. At hynny, maent yn aml yn cario symiau mawr o arian a all eu gwneud yn darged i ladron. Gall CCTV atal troseddau o'r fath rhag cael eu cyflawni.

Mae gyrrwyr tacsi weithiau'n cael eu cyhuddo ar gam o droseddau. O ganlyniad,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gallant fod allan o waith am beth amser os caiff eu trwydded ei hatal dros dro neu ei dirymu tra'n aros am yr ymchwiliad. Gall CCTV helpu i wrthbrofi cyhuiddiadau ar gam mewn modd amserol.

Ar hyn o bryd, nid yw'r un awdurdod lleol yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i systemau CCTV gael eu defnyddio, ond mae llawer yn caniatáu hynny ar sail wirfoddol. Gall system CCTV addas fod yn ddrud ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu polisiau ac asesiadau risg helaeth os byddant yn ei gwneud yn ofynnol i systemau CCTV gael eu defnyddio yn eu cerbydau trwyddedig.

Mae rhai awdurdodau lleol yn Lloegr sydd wedi'i gwneud yn ofynnol i systemau CCTV gael eu defnyddio wedi gallu cynnig cyfraddau gostyngol drwy wahanol fentrau cyllido.

Er bod ei gwneud yn ofynnol i systemau CCTV gael eu defnyddio yn rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ei ystyried mewn safonau cenedlaethol yn y dyfodol, ar yr adeg hon ystyrir bod manyleb y cytunir arni i berchenogion sydd am osod system yn wirfoddol yn fuddiol. Bydd y fanyleb yn sicrhau bod systemau yn ddiogel a'u bod yn cydymffurfio â'r gofynion presennol o ran diogelu data.

Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd a Pholisiau ar Lawrlwytho Data ar waith pan fyddant yn cymeradwyo defnyddio systemau CCTV mewn cerbydau.

Private Hire Operators

Mae gweithredwyr hurio preifat yn aml yn coladu llawer iawn o ddata personol ac maent mewn swydd o ymddiriedaeth. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddant yn gwybod pryd mae pobl oddi cartref ar wyliau. Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cadarnhau bod gweithredwyr yn 'gymwys ac yn briodol' i'w trwyddedu.

At hynny, yn aml gweithredwyr yw'r pwyt cyswllt cyntaf i deithwyr sydd am gwyno am y gwasanaeth y maent wedi'i gael gan yrrwr tacsi/cerbyd hurio preifat. Mewn rhai achosion, nid yw gwybodaeth berthnasol bob amser yn cael ei rhoi i'r awdurdod trwyddedu, y gall fod angen iddo benderfynu a yw gyrrwr yn dal i fod

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

yn ‘gymwys ac yn briodol’ i barhau fel gyrrwr trwyddedig.

Wrth ddrafftio'r argymhellion, roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol o'r farn y gellid gwella'r amodau ar gyfer gweithredwyr hurio preifat ledled Cymru, drwy gyflwyno gofynion ychwanegol i roi gwybod am droseddau a gweithdrefnau cwyno wedi'u dogfennu.

b) Cysondeb

Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn llunio eu polisiau a'u hamodau eu hunain ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat. Mae hyn yn golygu bod y gofynion ar gyfer trwyddedau yn wahanol iawn ym mhob un o'r 22 o awdurdodau yng Nghymru.

Mae'r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat yn aml yn ystyried bod hyn yn annheg ac yn honni, mewn rhai ardaloedd, ei fod yn ychwanegu at broblemau sy'n gysylltiedig â 'hurio ar draws ffiniau'. Honnir bod rhai ymgeiswyr yn cael eu trwyddedu gan awdurdodau lleol sydd â gofynion trwyddedu is ac wedyn yn gwneud gwaith hurio preifat yn bennaf mewn ardaloedd lle mae'r galw yn uwch. Mae'r arfer hwn yn gyfreithlon ond gall arwain at broblemau mewn rhai ardaloedd megis y canlynol:

- Mwy o dagfeydd,
- Gormod o gerbydau trwyddedig mewn trefi/dinasoedd a all leihau incwm gyrrwr,
- Dryswch i aelodau o'r cyhoedd am y gall y cerbyd y maent yn ei hurio fod wedi'i drwyddedu gan awdurdod trwyddedu gwahanol,
- Annhegwch i'r diwydiant tacsis/cherbydau hurio preifat o ran y safonau gofynnol,
- Cyfyngiadau gorfodi am mai cyfyngedig yw'r pwerau y gall swyddogion awdurdodau lleol eu defnyddio yn erbyn cerbydau 'o'r tu allan i'r dref'.

Heb ofynion na ffioedd trwyddedu safonedig ledled Cymru, cydnabyddir y bydd y problemau sy'n gysylltiedig â hurio ar draws ffiniau yn parhau. Fodd bynnag, mae'r argymhellion yn Rhan II o'r canllaw hwn wedi'u llunio fel cam cyntaf tuag at wella cysondeb ledled Cymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

c) Gorfodi

Bydd amodau trwyddedu gyrrwyr a gweithredwyr wedi'u cysoni ledled Cymru yn helpu i wella cysondeb gweithgarwch gorfodi.

At hynny, argymhellir y dylid cyflwyno protocol ar gyfer mabwysiadu system awdurdodi swyddogion ar draws ffiniau mewn ardaloedd lle mae hurio cerbydau ar draws ffiniau yn achosi problemau. Nodir protocol a awgrymir yn Local Government Association's Taxi and PHV: **Councillor's handbook** (Cymru a Lloegr).

Mae protocolau o'r fath yn helpu swyddogion gorfodi i gymryd camau mwy effeithiol yn erbyn cerbydau 'o'r tu allan i'r dref' sy'n gweithio yn eu hardal.

d) Hygyrchedd

Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru yn hygrych i bawb. Mae llawer o gyfrifon wedi'u dogfennu gan aelodau o'r cyhoedd sydd wedi'i chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru.

Nodir bod gan un o bob pum unigolyn yn y DU (13.3 miliwn) anabledd; o'r rhain, dim ond 26% o'r rhai sydd wedi nodi bod ganddynt anabledd sydd o dan oedran pensiwn. Namau ar symudedd yw'r math mwyaf cyffredin o anabledd, sy'n cyfrif am 49% o namau.

Mae Cymru yn uwch na chyfartaledd y DU o ran anableddau a nodir, gyda 25% o bobl yn nodi bod ganddynt anabledd o gymharu â chyfartaledd y DU, sef 21%.

Yn 2017, cynhaliodd Anabledd Cymru **arolwg** i nodi profiadau pobl anabl a oedd yn defnyddio gwasanaethau tacsis a cherbydau hurio preifat ledled Cymru. Canfu fod 78% o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi nodi eu bod yn anabl a dywedodd 64% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael problemau wrth ddefnyddio tacsis neu gerbydau hurio preifat. Ymhllith y problemau a danlinellwyd yn yr arolwg roedd:

- diffyg cerbydau hygrych;

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- gwrthod cymryd teithwyr mewn cadeiriau olwyn neu'r rhai â chŵn cymorth.
- codi pris uwch ar deithwyr;
- anallu gyrwyr i glymu cadeiriau olwyn yn ddiogel.

Mae rhagor o waith i'w wneud er mwyn sicrhau na fydd teithwyr ag anableddau yn parhau i wynebu'r mathau hyn o broblemau.

Mae Rhan II yn nodi gweithdrefn i yrwyr trwyddedig sy'n ceisio cael eu heithrio rhag cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rhagwelir y bydd y weithdrefn hon yn arwain at ddull cyson o gyhoeddi tystysgrifau eithrio ac yn sicrhau mai dim ond y rhai â rhesymau diliys o dan y ddeddfwriaeth a all gael eu heithrio rhag cyflawni eu dyletswyddau.

At hynny, mae amod trwydded a awgrymir a fyddai'n gymwys i berchenogion/gyrwyr cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn ceisio sicrhau y gall pob gyrrwr ddefnyddio rampiau cadair olwyn yn gywir a llwytho a chlymu cadeiriau olwyn yn ddiogel.

Dylid nodi bod y materion a nodir yn Nedd Cydraddoldeb 2010 yn faterion a gedwir yn ôl ac, felly, y byddant yn parhau i fod yn weithredol yng Nghymru nes i'r ddeddfwriaeth trwyddedu tacsis newydd gael ei chyflwyno.

e) Gwasanaeth cwsmeriaid

Mae Swyddogion Awdurdodau Lleol wedi nodi bod llawer o'r cwynion y maent yn eu cael yn ymwneud ag ymddygiadgyrwy. Gall fod yn anodd iawn delio â hyn o ran cymryd camau gorfodi os nad oes achos diamheul o dorri deddfwriaeth neu amod trwydded. Yn y pen draw, mater o benderfynu a yw gyrrwr yn 'gymwys ac yn briodol' i barhau fel gyrrwr trwyddedig ydyw.

Mae Cod Ymddygiad i yrwyr wedi'i ddatblygu er mwyn helpu gyrrwyr trwyddedig i ddeall pa lefel o wasanaeth ac ymddygiad a ddisgwylir ganddynt. Dylid hysbysu gyrrwr y gallai methu â chyrraedd y safon ofynnol yn y Cod achosi pryder ynghylch eu haddasrwydd i barhau fel gyrrwr trwyddedig. Gall y Cod hefyd helpu'r cyhoedd i ddeall pa lefel o wasanaeth y gallant ei disgwl.

Mae Cod Gwisg i yrwyr wedi'i ddatblygu hefyd er mwyn sicrhau bod dillad

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gyrwyd o safon dderbyniol a'u bod yn edrych yn broffesiynol bob amser.

Nod Llywodraeth Cymru yw gwneud y diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat yn fwy proffesiynol drwy sicrhau bod y diwydiant yn cynnig gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid a bod gyrwyr yn gweithredu fel cenhadon dros Gymru.

6. Casgliad

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth ar gyfer y ffordd y dylai'r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat ddatblygu yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno deddfwriaeth newydd er mwyn trawsnewid y gyfundrefn drwyddedu sydd wedi dyddio.

Cyhoeddir y Canllaw hwn fel canllawiau anstatudol. Ystyrir bod yr argymhellion yn Rhan II o'r canllaw hwn yn fan cychwyn ar gyfer newid er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau presennol o ran y cyfundrefnau trwyddedu, gwella safonau a chysondeb. Er mwyn gwneud hyn, argymhellir yn gryf y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru fabwysiadu'r argymhellion hyn (lle nad ydynt eisoes ar waith) am y rhesymau a nodwyd uchod.

Wrth newid Polisiau Trwyddedu, argymhellir y dylai awdurdodau lleol ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a chynnal asesiadau effaith lle y bo angen.

Bydd mabwysiadu'r argymhellion yn y canllaw hwn hefyd yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â llawer o'r argymhellion yn 'Safonau Statudol Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat', a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth.

Rhan 2: argymhellion

Argymhellir y dylid ymgorffori'r geiriad a'r mesurau polisi ym Mholisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yr Awdurdod Trwyddedu, ac y dylid mabwysiadu'r dogfennau yn yr atodiadau.

Dylai awdurdodau lleol ddilyn eu gweithdrefnau arferol wrth adolygu eu datganiadau polisi trwyddedu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

1. Safonau gyrvyr

a) Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Er mwyn bodloni'r awdurdod ei fod yn berson 'cymwys a phriodol', bydd pob ymgeisydd am rôl gyrrwr cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat yn cael Gwiriad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n cynnwys gwirio'r rhestrau gwahardd ar gyfer plant ac oedolion. Ar gyfer gyrvyr trwyddedig, caiff y gwiriad hwn ei gynnal bob chwe mis.

Rhaid i bob ymgeisydd/deiliad trwydded gofrestru â **Gwasanaeth Diweddar u'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** a pharhau i danysgrifio iddo tra bydd ei drwydded yn weithredol. Rhaid i ddeiliad y drwydded roi caniatâd i'r Awdurdod Trwyddedu wirio ei statws gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dim ond os bydd dyddiad y datgeliad o fewn un mis calendr cyn i'r cais gael ei gyflwyno y derbynnyr dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Er mwyn helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y ddogfen, 'Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the hackney and private hire trades', a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Trwyddedu ym mis Ebrill 2018. Nodir y canllawiau yn **Atodiad I**.

Dylid nodi y caiff cais unigolion sy'n ymddangos ar y naill restr gwahardd neu'r llall ei wrthod fel mater o drefn, oni fydd amgylchiadau eithriadol lle mae'r awdurdod trwyddedu o'r farm, yn ôl pwysau tebygolrwydd, bod yr unigolyn yn 'gymwys ac yn briodol'.

b) Gwiriad cofnodion troseddol tramor

Ar gyfer pob ymgeisydd am drwydded gyrrwr cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat sydd wedi treulio cyfnod di-dor o chwe mis neu fwy y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers ei ddegfed pen blwydd, bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu weld dystiolaeth o wiriad cofnodion troseddol o'r wlad/gwledydd yr ymwelwyd â hi/nhw sy'n cwmpasu'r cyfnod yr oedd yr ymgeisydd dramor.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd dalu unrhyw gostau ariannol sy'n gysylltiedig â gwiriadau o'r fath.

Ar gyfer gwladolion yr UE (gan gynnwys dinasyddion y DU), dylai gwiriadau addas fod ar gael. Ar gyfer y gwledydd hynny nad oes gwiriadau ar gael ar eu cyfer, bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu gael dystysgrif ymddygiad da a ddilyswyd gan y llysgenhadaeth berthnasol. Rhaid i'r dystysgrif gael ei dilysu, ei chyfieithu a'i selio gan y Llysgenhadaeth neu'r Uchel Gomisiwn. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau tebyg o sawl gwlad ar gael yn: **Criminal records checks for overseas applicants**

Os na fydd ymgeisydd yn gallu cael dystysgrif ymddygiad da, ni ddylai fwrw ymlaen â'i gais a dylai gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i gael rhagor o wybodaeth.

Rhaid bod gwiriadau cofnodion troseddol tramor wedi'u cael o fewn y cyfnod o chwe mis cyn i'r cais gael ei gyflwyno.

Bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu gael unrhyw Dystysgrif Ymddygiad Da sydd gan yr ymgeisydd, waeth beth fo oedran y ddogfen.

Bydd angen i Dystysgrifau Ymddygiad Da sydd mewn iaith heblaw Saesneg gael eu cyfieithu i'r Saesneg ar draul yr ymgeisydd gan wasanaeth cyfieithu annibynnol a bydd yn rhaid i'r cyfieithiad gael ei wirio.

c) Gwiriadau meddygol

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd am drwydded gyrrwr cerbyd hacni/cerbyd hurio preifat gyrraedd safonau meddygol Grŵp 2 y DVLA ar gyfer ffitrwydd i yrru. Rhaid i'r asesiad meddygol gael ei gynnal gan feddyg teulu'r ymgeisydd ei hun neu feddyg teulu arall ym mhactis cofrestredig yr ymgeisydd sydd â mynediad llawn at ei gofnodion meddygol.

O dan amgylchiadau eithriadol, a dim ond ar ôl cael caniatâd yr Awdurdod Trwyddedu ymlaen llaw, gall asesiad meddygol gael ei gynnal gan bractis cofrestredig arall ar yr amod bod hanes meddygol llawn yr ymgeisydd wedi cael ei weld a'i asesu gan y meddyg teulu hwnnw.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbyd-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Gall yr Awdurdod Trwyddedu gyfarwyddo unrhyw ddeiliad trwydded i ddarparu dystiolaeth fodhaol ar ffurf dystysgrif feddygol, sy'n nodi bod deiliad y drwydded yn cyrraedd safonau gofynnol Group 2, os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch ei ffitrwydd meddygol.

Os na fydd unigolyn sy'n cyflwyno cais i roi neu adnewyddu trwydded yn gallu bodloni'r Awdurdod Trwyddedu ei fod yn cyrraedd y safon feddygol ofynnol, yna ni roddir trwydded i'r unigolyn hwnnw, neu ni chaiff y drwydded ei hadnewyddu neu caiff ei dirymu.

Mae'r gofyniad ar gyfer ymgeiswyr/gyrwyr trwyddedig o ran archwiliad meddygol fel a ganlyn:

- Pan wneir cais, bob 3 blynedd rhwng 45 oed a 65 oed
- Bob blwyddyn pan fo'r gyrrwr yn 65 oed neu drosodd
- Neu unrhyw bryd fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Trwyddedu neu'r ymarferydd meddygol.

Mae'r ffurflen feddygol yn ddilys am 4 mis o'r dyddiad y mae'r meddyg, yr optegydd neu'r optometrydd sy'n cynnal yr archwiliad yn ei llofnodi.

Mae'n ofynnol i bob deiliad trwydded hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw salwch neu gyflwr sy'n effeithio ar ei allu i yrru.

Caiff yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chael y dystysgrif feddygol berthnasol eu talu gan yr ymgeisydd/deiliad y drwydded.

Ceir ffurflen feddygol yn **Atodiad A**

d) Polisi eithriadau meddygol o dan y ddeddf cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod nifer o ddyletswyddau cyfreithiol ar yrwyr trwyddedig pan fyddant yn cludo teithwyr ag anableddau.

Er mwyn gwella cydymffuriaeth â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb, dylid mabwysiadu'r Polisi a nodir yn **Atodiad B** mewn perthynas ag eithriadau meddygol gyrwyr rhag y rhwymedigaethau sy'n ymwneud â chludo cŵn cymorth

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

a theithwyr mewn cadeiriau olwyn.

e) Ymddygiad Gyrwyr

Disgwylir i yrwyr trwyddedig ymddwyn mewn modd proffesiynol a darparu gwasanaeth o safon uchel bob amser.

Datblygwyd y Cod Ymddygiad i Yrwyr a nodir yn **Atodiad C** er mwyn nodi'r safonau a ddisgwylir gan yrwyr trwyddedig ac mae'n rhan annatod o'r asesiad 'cymwys a phriodol'.

Mae'r Cod hefyd yn rhoi cyngor i deithwyr posibl ar lefel y gwasanaeth y dylent ei disgwl wrth hurio cerbyd trwyddedig.

f) Cod Gwisg i Yrwyr

Cydnabyddir, yn y diwydiant tacsis, fod Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn chwarae'r ôl bwysig wrth gyfleo delwedd gadarnhaol o'r ardal a gellir ystyried bod gyrwyr yn genhadon allweddol dros Gymru.

Mae unrhyw beth sy'n gwella delwedd broffesiynol y diwydiant Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat ac sy'n hyrwyddo'r cysyniad bod gyrwyr cerbydau trwyddedig yn yrwyr galwedigaethol proffesiynol i'w groesawu.

Er mwyn sicrhau nid yn unig fod y nodau uchod yn cael eu cyflawni ond hefyd fod cerbydau yn cael eu gyrru'n ddiogel, mae Cod Gwisg i yrwyr trwyddedig wedi'i bennu, a nodir yn **Atodiad D**.

g) Amodau ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat

Nodir yr amodau trwyddedu sy'n gymwys i yrwyr cerbydau hurio preifat yn **Atodiad E**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

h) Hyfforddiant diogelu

Mae gan yrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gyfrifoldeb pwysig o ran cludo teithwyr sy'n talu yn ddiogel. Disgwylir i yrwyr ymddwyn mewn modd proffesiynol bob amser a darparu gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid.

Gall gyrwyr trwyddedig yn aml weithredu fel llygaid a chlustiau cymuned. Gall hyfforddiant fod yn bwysig er mwyn helpu gyrwyr trwyddedig i wybod pryd maent yn cludo teithwyr sy'n wynebu risg o gamdriniaeth a chamfanteisio.

Rhaid i bob ymgeisydd newydd am drwydded gyrrwr cerbyd hacni/cerbyd hurio preifat gael hyfforddiant diogelu. Mae'r hyfforddiant yn canolbwytio ar adnabod y ffactorau sy'n gwneud oedolion a phlant yn agored i niwed ac arwyddion traïs, camfanteisio'n rhywiol, gweithgarwch llinellau cyffuriau a masnachu mewn pobl. Mae'n cynnwys enghreiffiau o deithiau amheus yn ogystal â gwybodaeth am gynnal ffiniau proffesiynol.

Mae'r hyfforddiant ar ffurf y fideo canlynol ac mae'n rhaid pasio prawf sy'n seiliedig ar gynnwys y fideo cyn cael trwydded: **Hyfforddiant diogelu ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a hurio Preifat a Cynorthwywyr Teithwyr**

2. Safonau cerbydau

a) Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd am drwydded cerbyd hacni a cherbydd hurio preifat gyflwyno datgeliad sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bodloni'r awdurdod ei fod yn berson 'cymwys a phriodol'. Caiff y gwiriadau hyn eu cynnal bob blwyddyn ar gyfer deiliaid trwydded cerbyd. Yr ymgeisydd/deiliad y drwydded fydd yn talu cost y gwiriadau hyn.

Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr sydd eisoes yn dal trwydded gyrrwr cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat gyda'r awdurdod hwn ddarparu'r datgeliad sylfaenol fel rhan o'u cais am drwydded gweithredwr hurio preifat.

Er mwyn helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded, bydd yr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

awdurdod trwyddedu yn ystyried y ddogfen, ‘*Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the hackney and private hire trades*’, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Trwyddedu ym mis Ebrill 2018. Nodir y canllawiau yn **Atodiad I**.

Fel arfer, ni chaiff troseddau gyrru eu hystyried fel rhan o'r asesiad ar gyfer deiliaid trwydded cerbyd.

Ni chaiff gwybodaeth a geir mewn gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd na fyddai'n cael ei datgelu mewn gwiriad sylfaenol ei hystyried fel rhan o'r asesiad ar gyfer trwydded cerbyd.

b) Gwiriad Cofnodion Troseddol Tramor

Ar gyfer pob ymgeisydd am drwydded gyrrwr cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat sydd wedi treulio cyfnod di-dor o chwe mis neu fwy y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers ei ddegfed pen blwydd, bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu weld tystiolaeth o wiriad cofnodion troseddol o'r wlad/gwledydd yr ymwelwyd â hi/nhw sy'n cwmpasu'r cyfnod yr oedd yr ymgeisydd dramor.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd dalu unrhyw gostau ariannol sy'n gysylltiedig â gwiriadau o'r fath.

Ar gyfer gwladolion yr UE (gan gynnwys dinasyddion y DU), dylai gwiriadau addas fod ar gael. Ar gyfer y gwledydd hynny nad oes gwiriadau ar gael ar eu cyfer, bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu gael dystysgrif o ymddygiad da a ddilyswyd gan y Llysgenhadaeth berthnasol. Rhaid i'r dystysgrif gael ei diliysu, ei chyfieithu a'i selio gan y Llysgenhadaeth neu'r Uchel Gomisiwn. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau tebyg o sawl gwlad ar gael yn: **Criminal records checks for overseas applicants**

Os na fydd ymgeisydd yn gallu cael dystysgrif ymddygiad da, ni ddylech fwrw ymlaen â'i gais a dylech gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i gael rhagor o wybodaeth.

Rhaid bod gwiriadau cofnodion troseddol tramor wedi'u cael o fewn y cyfnod o chwe mis cyn i'r cais gael ei gyflwyno.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu gael unrhyw Dystysgrif Ymddygiad Da sydd gan yr ymgeisydd, waeth beth fo oedran y ddogfen.

Bydd angen i Dystysgrifau Ymddygiad Da sydd mewn iaith heblaw Saesneg gael eu cyfieithu i'r Saesneg ar draul yr ymgeisydd gan wasanaeth cyfieithu annibynnol a bydd yn rhaid i'r cyfieithiad gael ei wirio.

c) Camerâu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) mewn Cerbydau

Mae diogelu gyrrwyr a theithwyr o'r pwys pennaf a gall camerâu CCTV y tu mewn i gerbydau fod yn arf ataliol werthfawr.

Mae'n rhaid i'r defnydd o system CCTV y tu mewn i gerbyd gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu ac mae'n rhaid iddi gyd-fynd â'r manylebau a nodir yn **Atodiad F** neu ragori arnynt.

Rhaid i'r system allu recordio delweddau a sain (mewn argyfwng).

Ceir amodau sy'n ymwneud â systemau CCTV yn yr amodau trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Y gyrrwr trwyddedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod y system CCTV yn gwbl weithredol ar ddechrau pob sifft a chyn derbyn teithwyr sy'n talu.

d) Systemau Fideo 'Pwynt Taro' (VPIS)/Camerâu Dangosfwrdd

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn caniatáu i systemau VPIS (camerâu dangosfwrdd sy'n wynebu tuag allan) gael eu defnyddio mewn cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Rhaid i berchennog unrhyw gerbyd y mae system VPIS wedi'i gosod ynddo gydymffurfio â'r amodau a nodir yn **Atodiad G**

e) Hygyrchedd

Rhaid i gerbydau hygrych i gadeiriau olwyn dynodedig allu hwyluso cludo pobl anabl a chynnwys person anabl mewn cadair olwyn 'gyfeirio'* yn adran y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

teithwyr.

*Diffinnir cadair olwyn gyfeirio yn Atodlen 1 i **Reoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000**

Mae gan berchenogion gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw yrrwr trwyddedig sy'n gyrru un o'u cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn yn cael ei hysbysu am ei ddyletswyddau mewn perthynas â chludo pobl anabl mewn cadeiriau olwyn wrth yrru cerbyd hygyrch i gadeiriau olwyn trwyddedig.

Dylai'r amod trwyddedu canlynol fod yn gymwys i berchenogion cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn:

Rhaid i berchennog cerbyd hygyrch i gadeiriau olwyn trwyddedig ddangos i bob unigolyn sy'n gyrru'r cerbyd sut i helpu teithiwr mewn cadair olwyn i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd a chlymu'r gadair olwyn yn ddiogel yn y cerbyd. Bydd hyn yn cynnwys dangos i'r gyrrwr sut i osod y ramp(iau) a sut i ddefnyddio ac addasu'r ataliadau. Rhaid i'r perchennog gadw cofnod o ddangos hyn a chynnwys y canlynol:

1. Y dyddiad y gwneir hyn
2. Enw a rhif trwydded y gyrrwr
3. Datganiad wedi'i lofnodi ac wedi'i ddyddio gan y gyrrwr sy'n cydnabod y dangoswyd iddo beth i'w wneud a'i fod yn deall yn glir sut i helpu teithiwr mewn cadair olwyn i fynd i mewn i'r cerbyd

Rhaid i'r perchennog gadw'r cofnod hwn cyhyd ag y bydd y gyrrwr yn defnyddio'r cerbyd. Os bydd y gyrrwr yn rhentu'r cerbyd eto yn y dyfodol, bydd yn rhaid i'r perchennog ddangos iddo beth i'w wneud a'i gofnodi.

Os mai'r perchennog yw gyrrwr trwyddedig y cerbyd hefyd, bydd y perchennog yn cofnodi datganiad cydnabod wedi'i lofnodi i ardystio y gall gyflawni cyfarwyddiadau gwneuthurwr y cerbyd ynglŷn â sut i helpu teithiwr mewn cadair olwyn i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd yn ddiogel a sut i glymu'r gadair olwyn yn ddiogel.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

3. Safonau Gweithredwr Hurio Preifat

a) Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Rhaid i bob unigolyn sy'n gwneud cais i roi neu adnewyddu trwydded Gweithredwr Hurio Preifat gyflwyno datgeliad sylfaenol (wedi'i ddyddio o fewn un mis i ddyddiad y cais) y gellir ei gael gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bodloni'r awdurdod ei fod yn berson 'cymwys a phriodol'. Yn achos ceisiadau gan gwmni neu sefydliad, rhaid i bob un o gyfarwyddwyr y cwmni/sefydliad ddarparu datgeliad sylfaenol. Yr ymgeisydd/deiliad y drwydded fydd yn talu cost y gwiriadau hyn.

Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr sydd eisoes yn dal trwydded gyrrwr cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat gyda'r awdurdod hwn ddarparu'r datgeliad sylfaenol fel rhan o'u cais am drwydded gweithredwr hurio preifat.

Er mwyn helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y ddogfen, 'Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the hackney and private hire trades', a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Trwyddedu ym mis Ebrill 2018. Nodir y canllawiau yn **Atodiad I**.

Fel arfer, ni chaiff troseddau gyrru eu hystyried fel rhan o'r asesiad ar gyfer deiliaid trwydded gweithredwr hurio preifat. Ni chaiff gwybodaeth a geir mewn gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd na fyddai'n cael ei datgelu mewn gwiriad sylfaenol ei hystyried fel rhan o'r asesiad ar gyfer trwydded gweithredwr hurio preifat.

b) Amodau ar gyfer Gweithredwyr Hurio Preifat

Nodir yr amodau trwyddedu sy'n gymwys i weithredwyr cerbydau hurio preifat yn **Atodiad H**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

4. Polisi Cyffredinol

a) Hunangofnodi gan Ddeiliaid Trwydded

Mae'n ofynnol i bob Deiliad Trwydded hysbysu'r awdurdod trwyddedu o fewn 48 awr i unrhyw achos lle mae wedi cael ei arrestio a'i ryddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd neu drais ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid hysbysu'r awdurdod trwyddedu ymhellach o fewn 48 awr am unrhyw gyhuddiad ac unrhyw euogfarn. Gallai methiant i ddatgelu arestiad yr hysbysir yr awdurdod trwyddedu amdano wedi hynny gael ei ystyried yn ymddygiad sy'n codi amheuaeth ynghylch gonestrwydd ac, felly, addasrwydd deiliad y drwydded, waeth beth fo canlyniad y cyhuddiad cychwynnol.

b) Cofrestr genedlaethol o drwyddedau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat a ddirymwyd ac a wrthodwyd (NR3)

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn darparu gwybodaeth ar gyfer y Gofrestr Genedlaethol o Drwyddedau Tacsis a Wrthodwyd ac a Ddirymwyd (NR3), sef system i awdurdodau trwyddedu rannu manylion unigolion y mae eu trwydded cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat wedi'i dirymu neu unigolion y mae eu cais am drwydded o'r fath wedi'i wrthod. Mae angen gwneud hyn er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio yn yr Awdurdod Trwyddedu – hynny yw, asesu a yw unigolyn yn berson cymwys a phriodol i ddal trwydded cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat.

Felly:

- Os caiff trwydded cerbyd hacni/cerbyd hurio preifat ei dirymu neu os caiff cais am un ei wrthod, bydd yr awdurdod yn cofnodi'r penderfyniad hwn yn awtomatig ar NR3.
- Caiff pob cais am drwydded newydd neu bob cais i adnewyddu trwydded ei wirio'n awtomatig ar NR3. Os bydd chwiliad o NR3 yn dangos bod ymgeisydd eisoes wedi'i gofnodi arni, bydd yr awdurdod yn ceisio rhagor o wybodaeth am y cofnod ar y gofrestr gan yr awdurdod dan sylw. Dim ond mewn perthynas â'r cais penodol am drwydded y defnyddir unrhyw

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

wybodaeth a geir o ganlyniad i chwilio NR3 a chaiff ei dileu unwaith y penderfynir ar y cais hwnnw.

Bydd y wybodaeth a gofnodir ar NR3 wedi'i chyfyngu i'r canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad a manylion cyswllt
- rhif yswiriant gwladol
- rhif y drwydded yruru
- y penderfyniad a wnaed
- dyddiad y penderfyniad
- y dyddiad y daeth y penderfyniad i rym

Cedwir gwybodaeth ar NR3 am gyfnod o 25 mlynedd.

Mae hyn yn rhan orfodol o'r broses o wneud cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni/cerbyd hurio preifat. Mae gan yr awdurdod bolisi cyhoeddodedig ar sut y bydd yn ymdrin â cheisiadau gan awdurdodau eraill am ragor o wybodaeth am gofnodion ar NR3, ac ar y defnydd y bydd yn ei wneud o unrhyw wybodaeth bellach a roddir iddo. Gallwch ddarllen y polisi hwnnw yn (**INSERT WEBLINK**)

Caiff gwybodaeth ei phrosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae unrhyw chwiliadau neu unrhyw achos o ddarparu neu dderbyn gwybodaeth sydd ynghlwm wrth NR3 yn angenreidiol er mwyn cyflawni swyddogaethau trwyddedu statudol yr awdurdod i sicrhau bod pob gyrrwr yn gymwys ac yn briodol i ddal y drwydded gymwys. Ni fwriedir i unrhyw ddata NR3 gael eu trosglwyddo allan o'r Deyrnas Unedig.

Os hoffech godi unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys drwy ddibynnu ar unrhyw hawliau a roddir i destunau data o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r awdurdod yn **INSERT CONTACT DETAILS** Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cais am fynediad at ddata gan y testun.

Mae gennych yr hawl hefyd i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ceir cyngor ar sut i godi pryder ynghylch y ffordd y caiff data eu trin ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: **Make a complaint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

c) Gweithgarwch Gorfodi ar Draws Ffiniau

Os daw'n amlwg bod nifer o gerbydau sydd wedi'u trwyddedu gan yr awdurdod hwn yn gwneud y mwyafrif (h.y. mwy na 50%) o'r gwaith hurio preifat mewn ardal awdurdod lleol arall, neu pan fo'n amlwg bod nifer o gerbydau sydd wedi'u trwyddedu gan awdurdod lleol arall yn gwneud y mwyafrif o'r gwaith hurio preifat yn yr ardal hon, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ceisio datblygu protocolau gorfodi gyda'r awdurdodau lleol hynny.

O dan yr amgylchiadau hyn, dilynir y protocol canlynol (fel y'i disgrifir yn **Local Government Association's Taxi and PHV Licensing Councillor's handbook**):

- Mae pob awdurdod yn cytuno ar y lefel ofynnol o arbenigedd/cymwysterau/sgiliau ar gyfer cymeradwyo awdurdodi pob unigolyn.
- Mae pob awdurdod yn nodi, drwy ei gynlluniau dirprwyo ei hun, ba gamau gweithdrefnol sydd angen eu cymryd er mwyn awdurdodi unigolyn yn ddilys (h.y. adroddiad prif swyddog, penderfyniad is-bwylgor neu bwylgor llawn).
- Mae pob awdurdod yn cytuno ar ffurf a geiriad y 'llythyr awdurdodi' a'r 'cerdyn gwarant â llun' sydd i'w cyhoeddi.
- Mae pob 'cyngor sy'n gwneud cais' yn gwneud cais ffurfiol i awdurdodi swyddogion unigol a enwir.
- Mae pob 'cyngor sy'n derbyn' yn cael awdurdodiad ac yn rhoi 'llythyr awdurdodi' mewn perthynas â swyddogion yr awdurdod arall.
- Mae pob awdurdod cyflogi yn rhoi cerdyn gwarant â llun i'w swyddogion ei hun sy'n nodi, at ddibenion [nodwch y Deddfau Seneddol], fod [enw] yn swyddog a awdurdodwyd yn briodol yn [rhestr o'r holl gynghorau awdurdodi].
- Mae pob awdurdod yn rhoi copïau o is-ddeddfau priodol, amodau a methodolegau/systemau adrodd y cytunwyd arnynt ar gyfer ymdrin â cherbydau diffygiol a materion eraill o ardaloedd eraill i bob swyddog.
- Mae pob awdurdod yn ceisio cymeradwyaeth wleidyddol ac ariannol ar gyfer gweithrediadau ar y cyd a gynlluniwyd ymlaen lllaw gyda'i gilydd a gyda'r heddlu/Cyllid a Thollau EM.
- Caiff protocolau rhannu data, fel y bo angen, eu sefydlu rhwng awdurdodau, gan gynnwys templedi cofnodi digwyddiadau/logiau gweithrediadau safonol i'w defnyddio gan bawb er mwyn sicrhau cysondeb a chofnodi cynlluniau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

d) Polisi addasrwydd

Er mwyn asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y ddogfen, ‘Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the hackney and private hire trades’, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Trwyddedu ym mis Ebrill 2018.

Nodir y canllawiau yn **Atodiad I**.

e) Safonau Statudol Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat yr Adran Drafnidiaeth

Mae Safonau Statudol Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat yr Adran Drafnidiaeth yn nodi fframwaith o bolisiau o dan Adran 177 (4) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 y mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu “eu hystyried” wrth arfer eu swyddogaethau.

Er mwyn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, mae'r awdurdod trwyddedu yn ymrwymedig i roi'r argymhellion yn Safonau Statudol Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat yr Adran Drafnidiaeth ar waith. Mae geiriad y Polisi hwn wedi'i ddiwygio er mwyn ystyried y Safonau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Tacsis a cherbydau hurio preifat: canllawiau trwyddedu** a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn holol hygrych; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-canllawiau-trwyddedu-html> i weld y fersiwn
ddiweddgaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---------------------------|--|
| ADRODDIAD I'R: | Pwyllgor Trwyddedu |
| DYDDIAD: | 23 Mehefin 2021 |
| SWYDDOG ARWEINIOL: | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| SWYDDOG CYSWLLT: | Uwch Swyddog Trwyddedu trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433 |
| TESTUN: | Y wybodaeth ddiweddaraf ar gerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau o ran y fflyd o gerbydau trwyddedig |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynglŷn â'r sefyllfa bresennol yn ymwneud â Chynllun Peilot Tacsis Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer cerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Roedd Sir Ddinbych yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer pedwar cerbyd trydan ac isadeiledd gwefru i dreialu cynllun 'profi cyn prynu'.

3. GWYBODAETH GEFNDIR

- 3.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o ddatgarboneiddio'r fflyd tacsi yn llwyr erbyn 2028.
- 3.2 Disgwylir y bydd y cynlluniau peilot Tacsi Gwyrdd yn helpu i gyflawni'r targed hwn gan y bydd yn helpu gyrrwyr tacsi i sylweddoli beth yw manteision ariannol ac amgylcheddol cerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau, a fydd gobeithio yn cyfrannu at y newid o gerbydau diesel/petrol i gerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau. Bydd y cynlluniau peilot yn weithredol am 2-3 blynedd.
- 3.3 Tair ardal y cynlluniau peilot yw Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir Benfro. Bydd cyfanswm o 50 o dacsis Nissan [Dynamo](#) trydan a sy'n hygrych i gadeiriau olwyn yn cael eu prynu, 44 ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, 4 ar gyfer Sir Ddinbych a 2 ar gyfer Sir Benfro. Bydd yr isadeiledd gwefru cysylltiedig (i'w ddefnyddio gan dacsis yn unig) hefyd yn cael ei osod ymhob ardal.

- 3.4 Bydd y cynllun yn gweithredu fel menter ‘profi cyn prynu’, a fydd yn galluogi gyrrwyr tacsi trwyddedig ymhob ardal i brofi’r cerbyd yn rhad ac am ddim am 30 diwrnod. Bydd y cyfnod prawf yn cynnwys gwefru trydanol am ddim, yswiriant, trwyddedu’r cerbyd a threfniant os yw'r cerbyd yn torri i lawr.
 - 3.5 Ar ôl cwblhau’r cyfnod prawf fe ofynnir i yrwyr gwblhau arolwg gwerthuso ac fe fyddant yn cael gwybodaeth ar y cynlluniau/cymorth sydd ar gael ar gyfer perchnogaeth/hurio’r cerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau yn yr hirdymor.
 - 3.6 Fe fydd pob ardal beilot yn gyfrifol am reoli’r cynllun h.y. Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Sir Ddinbych a Sir Benfro, gyda phroses gais debyg ar draws pob ardal. Ar gyfer Sir Ddinbych mae Rheoli Fflyd yn arwain ac yn gweinyddu’r prosiect.
 - 3.7 Er gwybodaeth i Aelodau nid yw cerbydau nad ydynt yn gollwng allyriadau yn rhyddhau unrhyw allyriadau yn ystod eu hoes ac mae cerbydau allyriadau Isel lawn (Hybrid ac E-REV) yn defnyddio injan gonfensiynol i un ai gweithredu fel ffynhonnell ychwanegol o danwydd ar gyfer y cerbyd neu fel ffynhonnell o danwydd ar gyfer y batri. Mae gan gerbydau Hybrid ac E-REV allyriadau CO₂ is o ganlyniad i well economi tanwydd a’r gallu i weithredu mewn dull trydan yn unig.
- 4.0 **ARGYMHELLION**
- 4.1 Fod Aelodau yn nodi’r cynnwys yn ymwneud â’r wybodaeth ddiweddaraf ar Gynllun Peilot Tacsi Gwyrdd Llywodraeth Cymru.

| | |
|---------------------------|--|
| ADRODDIAD I'R: | Pwyllgor Trwyddedu |
| DYDDIAD: | 23 Mehefin 2021 |
| SWYDDOG ARWEINIOL: | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| SWYDDOG CYSWLLT: | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706451 |
| TESTUN: | Adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd |

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y sefyllfa bresennol o ran adolygiad o'r polisi masnachu ar y stryd yn Sir Ddinbych.

2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddrafftio Polisi Masnachu ar y Stryd ac mae swyddogion yn ceisio barn yr Aelodau am y polisi drafft diwygiedig (ynghlwm yn Atodiad A). Mae'r fersiwn hon wedi cael ei llunio gyda'r bwriad o ddarparu polisi sydd yn addas i'r diben ac sy'n mynd i'r afael â phryderon pawb allai gael eu heffeithio.

3.0 PÂWER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 Rhan III, Atodlen 4, Masnachu ar y Stryd.

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

- 4.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn diffinio masnachu ar y stryd fel gwerthu, gosod neu gynnig pethau ar werth ar y stryd. Fe ail fabwysiadwyd y Rhan perthnasol o'r Ddeddf gan y Cyngor ym mis Mehefin 2002. Mae'r diffiniad o "stryd" yn eang ac mae'n cynnwys unrhyw ffordd, troedffordd, traeth neu unrhyw ardal arall y mae gan y cyhoedd fynediad iddo heb orfod talu, a meysydd gwasanaeth a ddiffinnir o dan Adran 329 Deddf Prifyrdd 1980.
- 4.2 Mae angen i unrhyw un sydd yn dymuno masnachu ar strydoedd yn y Sir wneud cais am Ganiatâd gan yr Awdurdod Trwyddedu. Y rheswm am

hyn yw bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi dynodi pob stryd yn Sir Ddinbych fel "Strydoedd â Chaniatâd" at ddibenion masnachu ar y stryd.

- 4.3 Mae un eithriad i hyn, sef bod y strydoedd yng nghanol trefi Y Rhyl a Phrestatyn wedi'u dynodi yn "Strydoedd Gwaharddedig lle na chaniateir i unrhyw fasnachu digwydd (Atodiad 1 y Polisi Drafft.)
